



Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Gorffennaf 2025

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o 'Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025: Deddfwriaeth ar daliadau uniongyrchol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol'.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

E-bost: TaliadauUniongyrchol@llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) gan ddefnyddio **Photosymbols**. [I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.](#)

[Rhif trwydded Photosybols 403527247](#)

Cynnwys

Am y ddogfen yma	4
Am daliadau uniongyrchol.....	5
Beth rydyn ni eisiau ei newid.....	8
Newid y rheolau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol	9
Syniadau ar gyfer y rheolau taliadau uniongyrchol mewn gofal iechyd.....	10
Newidiadau i daliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol....	36

Am y ddogfen yma



Rydyn ni eisiau newid y gyfraith ar gyfer defnyddio taliadau uniongyrchol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau yma.



Fe fydd eich atebion yn ein helpu i ysgrifennu'r rheolau a'r canllawiau terfynol.



Darllenwch y ddogfen yma ac atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.



Anfonwch eich atebion i ni erbyn **8 Hydref 2025**.

Am daliadau uniongyrchol



Ar hyn o bryd, dim ond pobl sy'n cael gofal cymdeithasol gan eu cyngor lleol sydd yn gallu cael taliadau uniongyrchol.



Mae taliadau uniongyrchol yn ffordd o dalu am eich gofal cymdeithasol.



Os mae eich cyngor wedi cytuno eich bod chi angen gofal cymdeithasol, rhaid iddyn nhw ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth i chi.



Fe fyddan nhw yn trefnu'r gwasanaethau i chi, neu rydych chi'n gallu gofyn am daliadau uniongyrchol.



Mae taliadau uniongyrchol yn arian y mae eich cyngor yn ei roi i chi, yn lle darparu gwasanaeth.



Rydych chi'n gallu defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu eich gofal a'ch cymorth eich hun. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n talu gweithiwr gofal neu gynorthwyydd personol.



Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi mwy o reolaeth i chi. Rydych chi'n gallu dewis:

- Pwy sy'n eich cynorthwyo chi
- Sut rydych chi'n cael eich cynorthwyo
- Pryd fyddwch chi'n cael eich cynorthwyo



Dydy pobl sy'n cael gofal drwy **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** yng Nghymru ddim yn gallu cael taliadau uniongyrchol.



Mae **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** yn becyn o ofal parhaus. Mae'n cael ei drefnu a'i dalu gan y GIG. Yn aml mae'n cael ei alw yn **GIP/CHC**.



Mae **GIP** ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal sy'n gysylltiedig ag iechyd yn bennaf.



Rydych chi'n gallu darganfod mwy am GIP ar ein gwefan: www.llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr



Rydyn ni eisiau newid pethau. Rydyn ni eisiau i Fyrddau Iechyd Lleol allu rhoi taliadau uniongyrchol i oedolion sy'n defnyddio **GIP**.



Mae llawer o bobl sy'n symud o ofal cymdeithasol i **GIP** yn colli eu gallu i ddewis a chael rheolaeth dros eu gofal.



Fe ddylai'r newid yma wneud pethau'n fwy teg ac yn fwy cyfartal i bobl anabl, a phobl â chyflyrau iechyd cymhleth.

Beth rydyn ni eisiau ei newid

Rydyn ni eisiau:



1. Pobl yng Nghymru i allu defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd. Fe fydd hyn yn dechrau gyda phobl sy'n cael **GIP**.



2. I wneud newid bach i sut mae taliadau uniongyrchol am ofal cymdeithasol yn gweithio.

Newid y rheolau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol



Er mwyn defnyddio **taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP**, mae angen i ni wneud rheolau a chanllawiau newydd.



Fe fydd y rheolau newydd yn dweud sut y dylai Byrddau Iechyd Lleol reoli **taliadau uniongyrchol**.



Fe fyddwn ni'n newid hen setiau o reolau i alluogi i Fyrddau Iechyd Lleol roi **taliadau uniongyrchol** ar gyfer **GIP**.



Mae pobl yn Lloegr wedi gallu defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer **GIP** ers 2014. Mae Lloegr wedi cael amser i brofi'r rheolau a gwneud i bethau weithio. Rydyn ni wedi edrych ar y rheolau sy'n gweithio yn Lloegr i'n helpu i wneud rheolau i Gymru.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod y rheolau yn ei gwneud hi'n hawdd i bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol, symud i'w ddefnyddio ar gyfer gofal iechyd.

Syniadau ar gyfer y rheolau taliadau uniongyrchol mewn gofal iechyd

Mae'r rhain yn rheolau ar gyfer:



- Byrddau Iechyd Lleol.



- Pobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol.



- Pobl sy'n rheoli taliadau uniongyrchol i chi.

Pwy sydd yn gallu cael taliadau uniongyrchol



Fe fydd y rheolau yn dweud bod rhaid i'r person:

- fod yn oedolyn
- a rhoi caniatad i dderbyn taliadau uniongyrchol.

Fe fydd y rheolau yn dweud bod yn rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ystyried:



- Os ydy taliad uniongyrchol yn iawn i chi, yn seiliedig ar eich sefyllfa a'ch iechyd.
- Os oes modd rheoli eich cyflwr iechyd gyda thaliad uniongyrchol.
- Sut mae'r cyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.
- Os bydd taliad uniongyrchol yn eich helpu i gael mwy o ddewis a rheolaeth.
- Pa mor bwysig ydy hi i chi gadw eich gofal a'ch cymorth arferol.

Taliadau uniongyrchol i blant



Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar y rheolau i oedolion, ond fe fyddwn ni hefyd yn gwneud rhai rheolau i blant. Rhag ofn y byddan ni'n eu hangen yn y dyfodol.

Rydyn ni'n credu y dylai'r rheolau ddweud y dylai plant allu cael taliadau uniongyrchol os:



- Mae'n nhw yn cael Gofal Parhaus Plant a Phobl Ifanc.



- Mae ganddyn nhw berson sy'n cytuno i reoli taliadau uniongyrchol ar eu rhan.



- Neu os ydy'r person ifanc yn gallu, mae'n nhw'n cytuno eu hunain i dderbyn taliadau uniongyrchol.

Taliadau uniongyrchol i bobl a phlant sydd heb alluedd



Mae angen rheolau ar gyfer pobl sydd **heb alluedd**.



Mae **diffyg galluedd** yn meddwl nad ydy person yn gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain. Neu dydyn nhw ddim yn gallu cyfathrebu eu penderfyniad.



Mae pobl sydd **heb alluedd** yn gallu cael cynrychiolydd.

Mae cynrychiolydd yn rhywun sy'n gallu:



- Gwneud penderfyniadau i chi.
- Caniatau i reoli taliadau uniongyrchol i chi.



Os nad oes gan berson sydd heb alluedd gynrychiolydd, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu dewis un.

Rhaid i gynrychiolwyr:



- Gwneud beth sydd orau i'r person bob amser wrth ddefnyddio'r taliad uniongyrchol.



- Bod yn gyfrifol am unrhyw gytundebau neu gontractau sydd yn cael eu gwneud.



- Defnyddio'r taliad uniongyrchol am ofal a chymorth sydd wedi cael ei ysgrifennu yn y cynllun gofal.

Pobl sy'n colli galluedd, neu ble mae eu gallu a'u galluedd i wneud penderfyniadau yn newid



Mae angen rheolau ar gyfer pobl sy'n colli'r gallu i wneud penderfyniadau a chytuno.

Yn y sefyllfa yma, rydyn ni'n credu y dylai Byrddau Iechyd Lleol allu parhau i dalu taliadau uniongyrchol os:



- Maen nhw'n meddwl bod y person wedi colli galluedd yn y tymor byr.
- Mae rhywun arall yn cytuno i reoli'r arian iddyn nhw – sef cynrychiolydd
- Mae'r person yn gallu cymryd rheolaeth yn ôl pan fyddan nhw'n gallu.



Os ydy person yn cael eu galluedd yn ôl, rydyn ni'n credu y dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol allu parhau i dalu cynrychiolydd os mae pawb yn cytuno.

Defnyddio enwebai pan fydd gennych chi alluedd

Os ydych chi'n gallu gwneud penderfyniadau drosoch eich hun, rydych chi'n gallu:



- rheoli taliadau uniongyrchol eich hun



- neu dewis enwebai.



Er enghraifft, rydych chi'n gallu gofyn i aelod o'r teulu neu ffrind reoli taliadau uniongyrchol i chi. Mae hyn yn cael ei alw yn enwebai.

Rhaid i'ch enwebai:



- Cytuno i reoli'r arian.
- Bod yn gyfrifol am unrhyw gytundebau sydd yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r arian.
- Defnyddio'r arian yn dilyn eich cynllun gofal.
- Dilyn y rheolau.



Os ydych eisiau rhoi'r gorau iddi neu newid enwebai, rhaid i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Fe fydd y Bwrdd Iechyd Lleol wedyn yn edrych i weld:



- os dylen nhw roi'r gorau i'r taliadau



- neu wneud cynlluniau newydd yn gyflym.

Penderfynu gwneud taliad uniongyrchol



Fe fydd y rheolau yn nodi proses clir ar gyfer penderfynu pryd i dalu taliadau uniongyrchol.



Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu trafod y penderfyniad gyda:

- Chi ac unrhyw un rydych chi'n dewis bod yn rhan o'r broses.
- Rhieni a gofalwyr.
- Meddygon, nyrsys, neu weithwyr iechyd eraill.
- Gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Unrhyw un arall a allai fod â gwybodaeth ddefnyddiol.



Fe fydd y rheolau yn dweud pa wybodaeth sydd angen i chi ei rhoi i'r Bwrdd Iechyd Lleol i gefnogi eu penderfyniad. Gan gynnwys gwybodaeth am eich iechyd, a'r cyfrif banc i dalu'r taliad uniongyrchol i mewn iddo.



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol fod yn siŵr eich bod yn gallu rheoli'r taliad ar eich pen eich hun neu gyda chymorth.

Penderfynu talu cynrychiolydd



Wrth benderfynu talu taliad uniongyrchol i gynrychiolydd, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu trafod y penderfyniad gyda:



- Unrhyw un o'r Llys Diogelu sy'n ymwneud â'r person.

- Unrhyw un sydd wedi cael eu dewis yn ôl y gyfraith i gynrychioli'r person.



- Unrhyw un sydd wedi cael eu henwi gan y person pan oedd ganddyn nhw alluedd.



Fe ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd feddwl am gredoau, gwerthoedd, dymuniadau a theimladau'r person.

Penderfynu talu enwebai



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud yn siŵr bod gan yr enwebai wiriad cofnod troseddol. Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod yr enwebai yn ddiogel i gynnig help i'r person.



Ni fydd angen gwiriad cofnod troseddol ar enwebai sy'n byw gyda'r person, neu aelod o'r teulu neu ffrind sy'n helpu gyda gofal.



Rydyn ni'n credu y dylai'r rheolau nodi bod aelodau'r teulu yn cynnwys:

- Gŵr, gwraig, neu bartner sifil.
- Rhywun sy'n byw fel gŵr, gwraig, neu bartner sifil.
- Rhiant, llys-riant, neu riant-yng-nghyfraith.
- Mab, merch, mab-yng-nghyfraith, merch-yng-nghyfraith, llysfab, neu lysferch.
- Brawd neu chwaer.
- Modryb neu ewythr.
- Nain neu thaid.
- Gŵr, gwraig neu bartner unrhyw un o'r uchod.



Ym mhob achos, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud yn siŵr bod y person, y cynrychiolydd neu'r enwebai yn gallu rheoli'r taliad uniongyrchol.



Efallai y byddan nhw'n edrych ar os yw'r person wedi gallu rheoli taliad uniongyrchol yn y gorffennol.



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol cyfleu'r penderfyniad yn ysgrifenedig. Os ydy'r ateb yn na, mae'n rhaid iddyn nhw ddweud pam.

Cynlluniau gofal a chymorth



Rydyn ni'n bwriadu cynnwys rheolau am gynlluniau gofal a chymorth.



Fe fyddwch chi angen cynllun gofal a chymorth cyn cael taliadau uniongyrchol.



Fe fydd y cynllun yn dangos ar gyfer beth mae taliad uniongyrchol yn gallu cael ei ddefnyddio

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ysgrifennu cynllun gofal a chymorth sy'n cynnwys:



- Anghenion iechyd y person.
- Y nodau a beth rydyn ni eisiau ei gyflawni i'r person trwy ofal a chefnogaeth.
- Pa wasanaethau sydd eu hangen ar y person.
- Faint o arian sy'n cael ei roi a phryd.
- Enw'r cydlynnydd gofal.
- Pwy sy'n gyfrifol am edrych ar ac arsylwi pob cyflwr iechyd.
- Pryd y dylai'r adolygiad cyntaf fod a sut y bydd yn cael ei wneud.
- Faint o rybudd y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ei roi os ydyn nhw'n gostwng y swm neu'n rhoi'r gorau i daliadau uniongyrchol ar ôl adolygiad.

Cydlynnydd gofal



Mae'r cydlynnydd gofal yn edrych ar eich anghenion iechyd ac yn helpu i adolygu'r taliadau.



Fe fyddan nhw'n gweithio gyda chi a'r Bwrdd Iechyd Lleol i reoli taliadau uniongyrchol ac edrych i weld bod eich anghenion iechyd yn cael eu hateb.

Rheoli risgiau



Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol edrych ar unrhyw risgiau sydd yn gallu codi o ddefnyddio taliadau uniongyrchol.



Rhaid cytuno ar unrhyw risgiau a sut i'w lleihau gyda chi neu'ch cynrychiolydd.

Gwasanaethau na ellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar eu cyfer



Dydy taliad uniongyrchol ddim yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu am rai gwasanaethau. Dydy'r gwasanaethau yma ddim yn gallu cael eu cynnwys yn eich cynllun gofal a chymorth.

Rydyn ni'n credu na ddylid talu am y gwasanaethau canlynol trwy daliadau uniongyrchol:



- Gwasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau meddygol sylfaenol eraill.
- Taliadau'r GIG fel costau mynd i'r deintydd neu gael profion llygaid.
- Llawdriniaethau neu lawdriniaeth wedi'u cynllunio.
- Brechiadau neu sgrinio iechyd.
- Archwiliadau iechyd mewn ysgolion, fel archwiliadau taldra a phwysau.
- Archwiliadau Iechyd y GIG ar gyfer oedolion.
- Gwario ar gamblo, alcohol, tybaco, neu dalu dyledion.




Fe ddylai'r rheolau ddweud bod pobl yn gallu gofyn i'r Bwrdd Iechyd pam nad ydy taliadau uniongyrchol yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau penodol.

Taliadau untro



Mae taliad untro yn gallu bod yn bosibl os ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y cynllun gofal a chymorth.



Rydyn ni'n meddwl y dylai'r rheolau ddweud eich bod yn gallu cael taliad untro am 1 eitem neu wasanaeth.



Neu rydych chi'n gallu cael 1 taliad am ddim mwy na 5 eitem neu wasanaeth, os mai dyna'r unig daliad y byddwch chi'n ei gael gan y Bwrdd Iechyd mewn un flwyddyn.

Gwybodaeth, cyngor a chymorth arall



Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi cymorth i bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol.



Mae'r cymorth yma yn gallu cynnwys gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall.



Fe ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol esbonio faint o arian fyddwch chi'n ei gael. A sut mae hyn wedi cael ei weithio allan.

Fe ddylen nhw roi cyngor i chi am:



- Sut i ofyn am daliadau uniongyrchol.
- Sut mae'r cynllun gofal a chymorth yn cael ei wneud.
- Y gyllideb ac ar beth rydych chi'n gallu wario.
- Sut i reoli'r taliadau uniongyrchol.
- Sut i ofyn am adolygiad.
- Pan nad ydy rhywun yn gallu cael taliadau uniongyrchol bellach.



Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu helpu pobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i gefnogi eu staff. Er engraifft cynorthwywyr personol. Maen nhw'n gallu helpu gyda hyfforddiant os oes angen.



Fe ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r cyngor lleol weithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth.

Rheolau ar gyfer pobl sy'n cael taliadau uniongyrchol

Os ydych chi'n cael taliadau uniongyrchol, rhaid i chi ddilyn rheolau penodol:



- Rhaid defnyddio'r arian yn unig i brynu'r gofal a'r cymorth sydd wedi cael eu rhestru yn y cynllun gofal a chymorth.



- Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu atodi rheolau ychwanegol. Fel peidio â defnyddio rhai darparwyr gofal.



- Rhaid i chi roi gwybodaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol pan maen nhw'n gofyn.



- Rhaid i chi hefyd ddweud wrth y Bwrdd Iechyd Lleol os yw eich iechyd neu sefyllfa yn newid llawer.



- Os ydych chi'n prynu gofal gan gwmni, rhaid i chi edrych os ydy'r cwmni wedi'i gofrestru ac yn ddiogel.



- Rhaid i'r arian fynd i gyfrif banc sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol.



- Dim ond ar gyfer arian taliad uniongyrchol y mae'n rhaid defnyddio'r cyfrif banc yma. Ac mae'n rhaid iddo fod yn hawdd i'w wirio.



- Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu gofyn am ddiweddariadau i wneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n iawn.

Edrych ar ac adolygu taliadau uniongyrchol



Os bydd eich iechyd yn newid, fe fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn edrych i weld bod y swm o arian yn dal i fod yn iawn.



Os nad ydych chi'n defnyddio'ch holl daliadau uniongyrchol, efallai y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn rhoi llai o arian i chi y tro nesaf.



Os ydyn nhw'n penderfynu rhoi llai o arian i chi, mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrthy'ch chi yn ysgrifenedig a dweud pam.



Rhaid iddyn nhw edrych yn rheolaidd bod y taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n iawn.



Rhaid iddyn nhw wneud adolygiad cyntaf o fewn 3 mis. Yna o leiaf unwaith y flwyddyn.



Os bydd eich iechyd yn newid neu os oes problemau, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud adolygiad newydd.



Yn ystod adolygiad, fe fyddan nhw yn:

- Edrych ar eich cynllun.
- Edrych sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio.
- Edrych os ydy'r arian yn dal i ateb eich anghenion iechyd.



Rydych chi hefyd yn gallu gofyn am adolygiad os ydych chi'n meddwl bod angen newid rhywbeth.

Ar ôl adolygiad, maen nhw'n gallu:



- Newid eich cynllun gofal.



- Newid swm yr arian.



- Gofyn am ragor o wybodaeth.



Os ydyn nhw'n stopio neu'n lleihau eich arian, rhaid iddyn nhw ddweud wrthyh chi yn ysgrifenedig a dweud pam.



Rydych chi'n gallu gofyn am 1 adolygiad arall os nad ydych chi'n cytuno. Rhaid i chi roi gwybodaeth i gefnogi eich achos.

Talu taliadau uniongyrchol yn ôl



Weithiau, efallai y byddan nhw'n gofyn i chi dalu rhywfaint neu'r cyfan o'ch taliadau uniongyrchol yn ôl.



Mae hyn yn gallu digwydd os mae eich cynllun gofal neu sefyllfa bywyd wedi newid llawer.



Mae'n gallu digwydd hefyd os nad ydy'r arian wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y cymorth mae eich cynllun gofal yn dweud eich bod angen.



Os ydy'r Bwrdd Iechyd Lleol yn meddwl bod arian wedi'i ddefnyddio yn anghywir, maen nhw'n gallu gofyn amdano yn ôl.



Rydych chi'n gallu gofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol edrych eto ar y penderfyniad i ad-dalu'r arian.



Fe fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifennu i chi am eu penderfyniad. Efallai y byddan nhw'n penderfynu peidio â gofyn am yr arian yn ôl.

Mae taliadau uniongyrchol yn gallu stopio os:



- Dydy oedolyn ddim bellach yn cytuno i gael taliadau uniongyrchol.
- Does gan blentyn neu berson sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau neb i gytuno ar eu rhan.
- Dydy'r person ddim bellach yn cael gofal y GIG.
- Dydy'r person sydd wedi cael eu dewis i gael yr arian ddim bellach yn addas. Neu dydyn nhw ddim eisiau ei wneud ddim mwy.
- Dydy'r arian ddim yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd y cytunwyd arno yn y cynllun gofal a chymorth.
- Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn credu bod rhywbeth o'i le wedi digwydd.
- Dydy anghenion iechyd y person ddim yn gallu cael eu hateb trwy daliadau uniongyrchol.
- Mae'r person sy'n derbyn gofal wedi marw.



Os bydd taliadau'n stopio, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ysgrifennu at bobl a dweud pam.

Newidiadau i daliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol



Rydyn ni eisiau diweddarau'r rheolau am daliadau uniongyrchol am ofal cymdeithasol.



Fe fydd y rheolau newydd yn helpu pobl sy'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain ond yn ei chael hi'n anodd rheoli arian.



Fe fydd y rheolau newydd yn gadael i rywun arall reoli taliadau uniongyrchol i chi.

Er enghraifft, rydych chi'n gallu dewis rhywun arall i gael y taliad os:



- Rydych chi'n ei ddeall ac yn cytuno iddo, neu



- Rydych chi'n blentyn ac yn deall digon i wneud dewis.

Fe fydd cynghorau lleol yn gallu rhoi taliadau uniongyrchol i:



- Person rydych chi'n ei ddewis (fel aelod o'r teulu neu ffrind).



- Sefydliad rydych chi'n ymddiried ynddo i drefnu eich gofal.

